

Cyngor i Rieni

Ar gyfer mynediad yn 2018



GORAU

YNG NGHYMRU
A RHIF 5 YN Y DU

★★★★★ ACF 2017 ★★★★★

AM FODLONRWYDD
MYFYRWYR

Mae safleoedd Prifysgol Aberystwyth wedi eu cymharu â rhestr o sefydliadau addysg uwch a geir yn *The Times & Sunday Times Good University Guide 2018*.

THE SUNDAY TIMES
THE SUNDAY TIMES
CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2018

PRIFYSGOL
Y FLWYDDYNN
AR GYFER
ANSAWDD DYSGU

Croeso i Aber

Mae dewis ble i fynd i'r Brifysgol a beth i'w astudio yn un o groesffyrdd mawr bywyd. Fel rhiant fy hun, gwn fod penderfyniadau o'r fath yn aml yn destun trafodaeth ymhlith y teulu cyfan yn ogystal â ffrindiau felly rwy'n gobeithio y bydd y llyfryn hwn yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried manteision addysg Prifysgol Aberystwyth.

Yn gyntaf oll, mae Aberystwyth yn Brifysgol ag iddi enw da am ragoriaeth academiaidd ac ymchwil sy'n dyddio'n ôl i 1872. Mae gennym staff addysgu sy'n flaenllaw yn eu maes ac sydd â'u bryd ar ddarparu dysgu arloesol ac ysbrydoledig mewn amgylchedd ysgogol. Rydym wedi buddsoddi mewn ystafelloedd addysgu o ansawdd uchel sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a lle mae darlithoedd yn cael eu recordio fel gall ein myfyrwyr eu gwyllo eto wrth iddynt adolygu.

Mae'n staff hefyd yn adnabod eu myfyrwyr yn dda. Nid sefydliad mawr, di-wyneb 'mohonom. Mae Aber yn gymuned gefnogol, groesawgar ac amrywiol ac mae hyn i'w weld nid yn unig ar y campws ond hefyd yn y dre, sy'n chwarae rhan mor bwysig ym mywyd myfyrwyr yma. Mae'n lleoliad arbennig ar yr arfordir ac mewn

ardal hynod ddiogel, lle gall myfyrwyr ffynnu a datblygu wrth iddynt fynd i'r afael â heriau addysg uwch a byw'n annibynnol.

Er mwyn pontio rhwng y cartref a'r campws, rydym yn gwarantu lle mewn llety o eiddo'r Brifysgol i bob glasfyfyrwr. Mae'n ffordd wych o wneud ffrindiau newydd a cheir dewis eang sy'n diwallu anghenion a chyllidebau gwahanol. Rydym yn cynnig pecyn o ysgoloriaethau, bwrsariaethau a gwobrau rhagorol hefyd - gan gydnabod llwyddiant yn ogystal â chynnig cefnogaeth a chymorth gyda chostau astudio.

Rydym yn falch iawn bod 95% o'n graddedigion mewn gwaith neu astudiaethau pellach chwe mis ar ôl iddynt raddio. Mae sicrhau bod gan ein myfyrwyr y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol yn elfen bwysig o'n rhaglenni gradd, gyda llawer o'n cynlluniau'n cynnig blwyddyn mewn diwydiant neu brofiad yn y gweithle. Mae gan y Brifysgol gynllun arbennig hefyd sy'n cynnig swyddi rhan-amser gyda thâl i fyfyrwyr yn ystod y tymor neu'r gwyliau.



Cafodd ansawdd y profiad myfyrwyr a gynigir yma ei adlewyrchu yn Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2017, sy'n casglu barn israddedigion blwyddyn olaf. Roedd Aberystwyth ar y brig yng Nghymru eleni eto ac ymhlith y pum prifysgol orau o'u bath yn y DU o ran boddhad cyffredinol myfyrwyr.

Porwch drwy'r tudalennau nesaf i gael gwybod mwy ac os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, cysylltwch â ni. Holwch hefyd am ein Cynllun Academiaidd Cyfrwng Cymraeg sy'n rhestru'n arlwy academiaidd a'n hymrwymiad i hybu'r iaith a'i diwylliant. Mae fy staff a minnau yma i'ch helpu chi a'ch merch neu'ch mab wrth iddynt wneud dewisiadau am eu dyfodol ac edrychwn ymlaen at eich cyfarfod ar y campws.

**Yr Athro Elizabeth Treasure
Is-Ganghellor**

Cynnwys

Helpu eich mab/merch gyda'r penderfyniad	2
Pam Aberystwyth?.....	4
Sut i ymgeisio, cam-wrth-gam	6
Egluro rhai termau.....	9
Ymweld â ni.....	10
Ffioedd dysgu a chefnogaeth ariannol.....	12
Gwella eu cyflogadwyedd.....	13
Llety	14
Sut i baratoi eich mab/merch ar gyfer prifysgol	18
Cynefin newydd	20
Yn cefnogi eich mab/merch	22
Bywyd myfyrwr	26
Dyddiadau'r tymhorau	28
Cysylltwch â ni	29

Ymhlith y 10 prifysgol
orau'r flwyddyn

Gwobrau Whatuni 2017

Helpu eich mab/merch *gyda'r penderfyniad*

Gan fod yna amrywiaeth mor eang, mae dewis pa bwnc a chwrs i'w hastudio yn un o'r penderfyniadau anoddaf mae'n debyg sy'n wynebu myfyrwyr heddiw.

Mae tudalennau ein gwefan ar gyfer chi'r rhieni (www.aber.ac.uk/cy/parents) yn cynnig mwy o wybodaeth, awgrymiadau a chyngor am sut i helpu eich mab/merch i ddewis y brifysgol a'r cwrs sydd orau iddyn nhw.



Y Gorau yng Nghymru
am ragoriaeth ei dysgu

Times and Sunday Times
Good University Guide 2017

Mae'r prif bynciau rydym yn dysgu yma'n Aberystwyth yn cynnwys:
Cyfrifeg, Cyllid, Economeg, Marchnata, Busnes a Rheolaeth; Celfyddyd Gain a Hanes Celf; Gwyddorau Biolegol; Cyfrifiadureg; Drama, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu; Addysg ac Astudiaethau Plentyndod; Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol; Gwyddorau Amgylcheddol; Ieithoedd Ewropeaidd; Daearyddiaeth a Gwyddorau Daearyddiaeth; Hanes a Hanes Cymru; Gwleidyddiaeth Ryngwladol; Y Gyfraith; Troseddeg; Mathemateg; Ffiseg; Seicoleg; Amaethyddiaeth a'r Gwyddorau Gwledig; Biowyddorau Milfeddygol; Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff; Cymraeg, Cymraeg Proffesiynol, Gwyddeleg ac Astudiaethau Celtaidd.

Sut gallwch chi helpu

- Gwnewch yn siwr fod eich mab/merch yn gwario digon o amser yn ymchwilio ac yn casglu gwybodaeth am bob un o'u dewisiadau
- Ewch i wefan UCAS (www.ucas.com) sydd ag adnodd chwilio cyrsiau arbennig sy'n rhestru'r holl gyrsiau sydd ar gael yn y DU yn ôl pwnc

- Ewch i weld y prifysgolion sydd o ddiddordeb i'ch mab/merch, os gallwch chi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal Diwrnodau Agored, sy'n cynnig cyfle i chi siarad â rai o'r staff a myfyrwyr sydd yno'n barod
- Ymchwiliwch i'r ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau sydd ar gael. Bydd llawer o brifysgolion yn cynnig amryw o ffynonellau ariannol i helpu eich mab/merch drwy eu hastudiaethau. Mae'r ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau fel rheol yn arian sy'n ychwanegol at y benthyciad, ac fel rheol nid oes raid talu'r arian yn ôl.



Roedd 100% o'n graddedigion
Celf, Y Gyfraith, Addysg a
Chymraeg ac Astudiaethau
Celtaidd mewn gwaith neu
astudiaeth pellach o fewn
6 mis wedi graddio

(DLHE 2017)

Mae Aberystwyth mewn lleoliad sy'n berffaith ar gyfer astudio daearyddiaeth, a chysiau cefn gwlad ac amgylcheddol. Nepell o Aberystwyth ceir mynyddoedd, y mor, aberoedd, coedwigoedd, twynni tywod a gorsdiroedd.

Pam Aberystwyth?



Ymhlith y 50 sefydliad blaenaf ar gyfer grym ymchwil ac arddwysedd

Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014



Cewch eich cefnogi gan **Wasanaethau Gwybodaeth** sydd wedi derbyn **Safon Rhagoriaeth** mewn Gwasanaethau Cwsmer



Yr orau yng Nghymru a'r 5ed yn y DU am fodlonrwydd myfwrwr

Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2017



2il yn y DU am ei asesu ac adborth i fyfyrwyr

Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2017



Y Brifysgol fwyaf diogel yng Nghymru ac ymhlith y **10 prifysgol fwyaf diogel yn y DU**

Complete University Guide 2016



Gorau yng Nghymru a 10fed yn y DU am ragoriaeth dysgu

Times and the Sunday Times Good University Guide 2017



“Rwy’n rhedeg cwmni dylunio a datblygu’r we ac apiau symudol sydd â mwy nag 20 o staff. Rhoddodd fy ngradd yr wybodaeth angenrheidiol i mi i ddechrau’r cwmni ac mae wedi bod yn bleser ei weld yn tyfu o ffeiddym i ffeiddym.”

Richard Glover-Davies, BEng Peirianeg Meddalwedd Sylfaenwr a Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni Gloversure



“Dwi’n gweithio ar Blas y Tir, y brand cynnyrch ffres mwyaf yng Nghymru. Rwy’n gyfrifol am weithredu’r brand o ddydd i ddydd, ond rwy hefyd yn ymwneud â chyfeiriad strategol y brand, ac yn defnyddio’r sgiliau a ddysgais yn y Brifysgol i ddadansoddi a hybu’r mwyddau.”

Megan Tye, BSc Marchnata a Rheolaeth Swyddog Marchnata Gweithredol i gwmni Puffin Produce

Sut i ymgeisio am le yn y brifysgol, *cam-wrth-gam*

Dyddiadau allweddol ar gyfer mynediad yn 2018

Dechrau mis Medi 2017

UCAS yn agor i dderbyn ceisiadau ar gyfer mynediad yn 2018.

15 Ionawr 2018

Dyddiad cau prif gynlluniau drwy UCAS. Ystyrir pob cais caiff ei dderbyn ar ôl y dyddiad yma ar sail unigol.

18 Ionawr

Dyddiad cau ymgeisio am Ysgoloriaeth Mynediad Prifysgol Aberystwyth.

30 Ionawr

Arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad.

Ebrill (ac ymlaen)

Ceisiadau ar-lein ar gyfer llety yn agor ar gyfer myfyrwyr sydd ag Aberystwyth fel DC, DWG, AC neu AWG.

30 Mehefin

Bydd y rheiny sy'n anfon ceisiadau UCAS ar ol y dyddiad hwn yn cael eu rhoi yn y broses Glirio.

16 Awst

Diwrnod canlyniadau Lefel A.

20 Medi

Dyddiad cau terfynol ar gyfer ceisiadau i gyrsiau 2018.

Ymgeisiwch drwy
UCAS.com
Cod sefydliad
Prifysgol Aberystwyth: A40

Mae'r brifysgol yn penderfynu a fydd hi'n cynnig lle i'ch mab/merch ai peidio.

Awgrym bach: Bydd eich mab/merch yn cael rhif adnabod UCAS sy'n 10 rhif. Cadwch hwn wrth law gan y bydd ei angen arnoch ar gyfer sawl peth.

Awgrym bach: Gallwch ddilyn hynt y cais drwy UCAS Track. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio dod i benderfyniad o fewn 4 wythnos.

Bydd y cynnig yn ymddangos ar UCAS Track.

Llety

Unwaith mae eich mab/merch wedi ein dewis fel eu dewis cadarn/wrth gefn byddant yn gallu gwneud cais am le yn ein llety.
(o'r 1af Ebrill ymlaen)

Ar ôl i'r holl gynigion gyrraedd, bydd yn rhaid i'ch mab/merch ateb o fewn amser penodol a nodi pa brifysgol fydd eu dewis cadarn a pha un fydd eu dewis wrth gefn.

Bydd yr haf yn gyfnod tyngedfennol. Gwnewch yn siwr nad yw eich gwyliau yn cyd-daro a chyfnod canlyniadau'r arholiadau.

Os nad yw eich mab/merch wedi cael y canlyniadau yr oeddynt yn gobeithio'u cael, efallai y bydd ymuno a'r drefn 'Clirio' o fudd. *(gweler tudalen 8)*

Diwrnod canlyniadau

Bydd UCAS track yn dangos cadarnhad o gynnig eich mab/merch o le. Os ydynt yn ansicr ynghylch eu lle, cysylltwch a'r brifysgol yn uniongyrchol.

Llongyfarchiadau, mae eich mab/merch wedi gorffen y broses gwneud cais i'r brifysgol! Nawr gwnewch yn siwr eu bod wedi gwneud cais am lety, a dechreuwch eu paratoi at eu profiad prifysgol.
(gweler tudalen 18)

Swyddfa Derbyn Israddedigion:

Adeilad Cledwyn, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, SY23 3DD
Ffôn: 01970 622021 • E-bost: derbyn-israddedig@aber.ac.uk

Trefn ystyried ceisiadau

O'n hochr ni, yr ystyriaeth bennaf yw penderfynu a fydd yr ymgeisydd yn debygol o elwa o gyfnod o astudiaeth academaidd. Nid yw tras, cenedl, crefydd na chred yn cael eu hystyried wrth benderfynu derbyn neu wrthod cais.

Amodau'r cynnig

Os bydd eich mab neu'ch merch yn llwyddo i gael y graddau priodol yn yr arholiadau, bydd ef neu hi wedi cyflawni telerau'r cynnig a byddwn yn barod i'w dderbyn/derbyn yn fyfyrwr. Rydym yn ceisio sicrhau y bydd myfyrwr sydd wedi ymrwymo i Aberystwyth trwy wneud cais yn llwyddo i gael lle ar y cwrs o'u dewis, neu ar gwrs arall os ydyn nhw wedi methu a chwrdd ag union delerau'r cynnig. Er hynny, dim ond os bydd union delerau'r cynnig yn cael eu cyflawni'n llawn y gallwn warantu eich lle yn y Brifysgol. Mae ein hyblygrwydd ar gyfer canlyniadau sy'n 'go agos' wedi ei gyfyngu, ac mae'n amrywio o bwnc i bwnc. Os oes gennych unrhyw amheuan ar ôl gweld y canlyniadau, cofwch gysylltu â ni. Mae ein llinell gymorth ar agor drwy'r haf, a dyna yw diben y gwasanaeth hwnnw – bod o gymorth i chi.

Clirio ac Addasu

Os nad yw eich mab/merch wedi cael y canlyniadau yr oeddynt yn gobeithio eu cael, neu yn wir os gwnaethant yn llawer gwell na'r disgwyl ac nad ydynt yn fodlon ar eu dewis o brifysgol, gallai ymuno a'r broses Glirio ac Addasu fod yn syniad da. Ar y diwrnod canlyniadau, mae

prifysgolion ledled y wlad yn cynnig mynediad trwy Clirio gyda'r bwriad o baru myfyrwr gyda'r cyrsiau sydd ar gael.

Sut mae'r broses Clirio'n gweithio

Bydd eich mab/merch yn myned y system glirio'n awtomatig, os ydynt wedi eu cofrestru ar y system UCAS ac oes nad ganddynt unrhyw gynigion arall. Mae gan UCAS restr o'r cyrsiau sydd ar gael drwy'r broses hon, ac mae gwefannau eraill yn dangos pa gyrsiau sydd ar gael, er bod hyn yn newid yn gyson. Yn Aberystwyth mae gennym Linell Ffon Clirio sydd ar agor am oriau estynedig. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

Mae Addasu ychydig yn wahanol i Clirio. Mae hwn ar gyfer myfyrwr sydd eisoes wedi bod drwy'r broses ymgeisio ond wedi cael gwell graddau na'r disgwyl, ac mae'n gyfle i newid i brifysgol arall sy'n cynnig lleoedd drwy'r system Addasu. Y ffordd gyflymaf i wneud hyn yw cysylltu a phrifysgolion trwy eu llinellau ffôn Clirio, a hynny cyn gynted â phosibl.



Egluro rhai termau...

Cynnig Amodol	Mae'n amlinellu'r amodau y bydd prifysgol yn ystyried derbyn eich mab/merch (e.e. cael B yn Safon Uwch).
Cynnig Diamod	Cynnig pendant o le mewn prifysgol, heb amodau.
Dewis Cadarn	O'r holl gynigion mae'ch mab/merch wedi derbyn, hwn yw'r brifysgol y mae eich mab/merch eisoes wedi dangos diddordeb pendant ynddi.
Dewis Wrth Grefn	Allan o'r cynigion derbyniwyd, hwn byddai ail ddewis eich mab/merch, os byddant yn methu a chwrdd ag amodau eu Dewis Cadarn.
UCAS Apply	Y system ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar-lein i UCAS.
Rhif adnabod UCAS	Pan fyddwch yn gwneud cais am le mewn prifysgol drwy UCAS ar gychwyn cyntaf y broses, byddwch yn cael rhif adnabod UCAS – mae 10 digid i hwn ac mae'n unigryw i chi. Cadwch y rhif hwn wrth law gan y byddwch ei angen sawl gwaith yn ystod y broses ymgeisio, ac yn enwedig os ydych yn ymuno a'r broses Glirio neu Addasu.
UCAS Track	Ar ôl i'ch mab/merch gofrestru a chwblhau eu cais ar-lein trwy UCAS, byddant yn gallu dilyn hynt eu cais, gweld ac ymateb i gynigion, ac ychwanegu dewisiadau clirio drwy UCAS Track.
Mynediad wedi'i ohirio	Os bydd eich mab/merch yn cwblhau'r broses o wneud cais i brifysgol ac wedi cael eu derbyn ar gwrs, ac yna yn penderfynu nad ydynt eisieu dechrau ym mis Medi, gallant ohirio (defer) eu cwrs am flwyddyn. Gellir wneud hyn i gael blwyddyn allan neu brofiad gwaith, er enghraifft.

Ymweld â ni

Ymweld â ni yw un o'r ffyrdd gorau o ddarganfod drosoch eich hun beth sydd gan Brifysgol Aberystwyth i'w gynnig...

Diwrnodau Agored

Yn ystod y flwyddyn, rydym yn cynnal sawl prif Ddiwrnod Agored, lle gallwch ymweld ag unrhyw ran o'r Brifysgol, gan gynnwys:

- edrych ar ein llety
- ymweld a'r adrannau
- cerdded o amgylch ein campws a'n cyfleusterau
- dysgu am ein bwsariaethau a'n hysgoloriaethau
- siarad a'n myfyrwyr presennol a'n staff
- dysgu sut y bydd astudio yn Aberystwyth yn gwella cyflogadwyedd eich mab/merch

Am ragor o wybodaeth ac i gadw eich lle ar un o'n Diwrnodau Agored, ewch at www.aber.ac.uk/diwrnodagored, neu cysylltwch â ni: 01970 622065 neu diwrnodagored@aber.ac.uk

Diwrnodau Ymweld i Ymgeiswyr

Gwahoddir myfyrwyr sy'n derbyn cynnig o le yn Aberystwyth i fynychu Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr. Mae'r ymweliadau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar y cwrs sydd o ddiddordeb ichi, a'r Adran sy'n cynnal y cwrs hwnnw. Cewch gyfle i siarad mewn mwy o ddyfnder â thiworiaid a rhai o'r myfyrwyr sydd yma ar hyn o bryd, yn ogystal â chael cyfle i weld yr Adran, y Brifysgol ac ychydig o lety'r Brifysgol.

Digwyddiadau adrannol

Mae ein hadrannau yn aml yn cynnal digwyddiadau pan fyddant yn gwahodd ysgolion a grwpiau i mewn i'r adran, neu'n cynnal digwyddiadau penodol sy'n ymwneud â'u gwaith.



Cysylltwch â'r adran y mae gennych ddi-ddordeb ynddi yn uniongyrchol i weld pa ddigwyddiadau y gallant fod yn eu trefnu.

Digwyddiadau yn eich ardal

Mae'n Tîm Cyswllt Ysgolion a Cholegau yn ymwneud â chynghori myfyrwyr, athrawon a staff gyrfaoedd, yn ogystal â rhieni, ar bob agwedd ar ymgeisio ar gyfer addysg uwch. Mae'r tîm yn teithio'n helaeth ledled y DU gan gynnig amrywiaeth o wasanaethau **AM DDIM** i ysgolion a cholegau.

Os hoffech i ni ddod i'ch ysgol/coleg gofynnwch i'r sefydliad gysylltu â ni: www.aber.ac.uk/cy/schools, 01970 628786, neu ebostiwch: cyswllt-ysgolion@aber.ac.uk

Blas ar y Brifysgol

Gall eich mab/merch gael blas ar Brifysgol Aberystwyth dros eu hun, wrth fynychu'r un o'n rhaglenni diwrnod/perswyl poblogaidd. Yn ystod eu amser yma byddwn yn teilwra rhaglen o weithgareddau iddynt, fel bod eich mab/merch yn cael cyfle i brofi bywyd academiaidd, cymdeithasol a'r chwaraeon sydd ar gael yma, eu cyflwyno i'n cyfleusterau blaengar, a mynd ar daith o'n campws a chyfleusterau. Os hoffai eich mab/merch gael blas ar fywyd yn y Brifysgol dros eu hun, gofynnwch iddynt gysylltu a ni: www.aber.ac.uk/cy/undergad/schools, 01970628786, neu ebostio: cyswllt-ysgolion@aber.ac.uk

Diwrnodau Agored Ar-lein

Gallwch brofi Prifysgol Aberystwyth heb orfod teithio trwy ymuno a'n Diwrnodau Agored Ar-lein. Cewch ragor o wybodaeth ar: www.aber.ac.uk/daa

Ffioedd dysgu a *chefnogaeth ariannol*

Yma rydyn ni'n amlygu'r prif ddarpariaeth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n dechrau astudio mewn sefydliad addysg uwch yn 2018. Nid yw'r cynnwys yn drwyadl, ond bydd yn rhoi man cychwyn defnyddiol i chi.

Ffioedd dysgu

I fyfyrwyr newydd o wledydd Prydain/yr UE sydd wedi cofrestru ar gyrsiau israddedig a TAR amser-llawn sy'n dechrau yn 2018, bwriad Prifysgol Aberystwyth yw codi £9,295 am ffioedd dysgu i'r flwyddyn 2018/19. Bydd ein ffioedd dysgu i israddedigion yn codi am bob blwyddyn astudio wedyn, yn cyd-fynd â'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru am ffioedd dysgu a gysylltir â chwyddiant.

I'r fyfyrwyr newydd sy'n dechrau yn 2018/19, mae hynny'n golygu y bydd y ffi am eich blwyddyn astudio gyntaf yn £9,295; fe fydd yn uwch yn unol â chwyddiant yn eich ail flwyddyn astudio ac yn uwch yn unol â chwyddiant eto yn eich trydedd flwyddyn, ac yn y blaen felly am bob blwyddyn astudio wedyn. Mae'r cynnydd hwn hefyd yn wir i'r ffioedd cyfrannol a osodir i'r Flwyddyn Dramor a'r Flwyddyn mewn Gwaith.

Cyn i'r cynnydd yn y ffioedd dysgu ddigwydd, bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r rheoliadau addysg uwch presennol a chymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol. Disgwylir y bydd y newidiadau angenrheidiol i'r rheoliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru wedi'u cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2017.

Bydd mwy o wybodaeth am y ffioedd dysgu amser-llawn i israddedigion o wledydd Prydain a'r UE o'r flwyddyn 2018/19 ymlaen yn cael ei chadarnhau gan Brifysgol Aberystwyth cyn gynted ag y bo modd a'i chyhoeddi ar y tudalen hwn.

Gallwch hefyd gysylltu â'r corff cyllid myfyrwyr perthnasol o'r rhestr isod:

Cymru: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Lloegr: www.gov.uk/browse/education/student-finance

Yr Alban: www.saas.gov.uk

Gogledd Iwerddon: www.studentfinanceneni.co.uk

Help gyda chostau byw

Yn ogystal â'r benthyciadau ar gyfer ffioedd dysgu, gallwch hefyd wneud cais am fenthyciad cynnal a chadw i gynorthwyo â phethau megis llety, costau teithio, llyfrau, ac ati.

Cofiwch:

- Ni fydd angen i chi ad-dalu'ch benthyciad myfyrwyr nes i chi raddio ac ennill dros £21,000 y flwyddyn
- Mae'r swm rydych chi'n ei ad-dalu wedi'i gyfrifo ar sail eich enillion, nid maint y benthyciad
- Dileir unrhyw fenthyciad sydd heb ei ad-dalu ar ol 30 mlynedd

Nawdd

Mae rhai cwmnïau a'r lluoedd arfog yn barod i noddi myfyrwyr wrth iddynt astudio mewn coleg neu brifysgol. Byddant hefyd yn gwarantu swydd iddynt yn ystod y gwyliau neu wedi iddynt raddio.

Ysgoloriaethau a Bwsariaethau

Yn Aberystwyth, rydyn ni'n cynnig pecyn hael o Ysgoloriaethau a Bwsariaethau i ymgeiswyr israddedig. Mae ein gwobrau yn rhoi cymorth ariannol gwerthfawr i sicrhau y gall myfyrwyr o bob cefndir fwynhau manteision addysg uwch. Ceir rhagor o wybodaeth ar-lein: www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau neu gallwch gysylltu â'r Tîm Ysgoloriaethau trwy ffonio: 01970 622065, neu trwy ebostio: marchnata@aber.ac.uk

Gwaith rhan-amser

Mae nifer o fyfyrwyr yn ychwanegu at eu incwm ariannol trwy gymryd gwaith rhan-amser yn ystod y tymor neu yn y gwyliau, ac mae digon o gyfle i wneud hyn yn Aberystwyth. Mae'n bwysig gofalu nad yw unrhyw swydd yn amharu ar eu gwaith academaidd. Cofiwch hefyd y gallai yr enillion gael effaith ar eu grant, neu ad-daliad treth. Mae'r Brifysgol yn cynnal cronfa-ddata ar-lein i helpu myfyrwyr i ddod o hyd i swyddi rhan-amser addas.

Gwella eu cyflogadwyedd

Gweithio o fewn y Brifysgol a thu hwnt

Ar ben pob cyfle sydd ar gael i'ch mab/merch drwy'r cwrs a'n Gwasanaeth Gyrfaoedd, rydym hefyd yn cynnig y cynlluniau GwaithAber ac AberYmlaen. Mae'r rhain yn rhoi eich mab/merch mewn sefyllfa i gael profiad gwaith ymarferol am dâl yn y Brifysgol, a bydd hyn yn eu gwneud yn fwy cyflogadwy trwy ddatblygu eu hunanymwybyddiaeth a'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt nhw.

Mae GwaithAber yn cynnig cyfle am waith rhan-amser achlysurol, sy'n amrywio o waith arlwyio a gweinyddol, i swyddogaethau 'llysgenhadol' i hybu'r Brifysgol, a llawer mwy. Yn ystod y tymor, os yw'r gwaith ar gael, gall eich mab/merch ddewis gweithio hyd at 15 awr yr wythnos, â rhagor o oriau o bosibl yn ystod y gwyliau. Gall y gwaith fod wedi'i leoli ar unrhyw un o gampysau'r Brifysgol, gan gynnwys yr Hen Goleg a'r ffermydd.

Yr hyn sy'n arbennig o dda am y cynllun yw y gall eich mab/merch dderbyn gwaith sy'n cymryd ei le o fewn eu amserlen, fel na fydd yn amharu ar eu astudiaethau ond byddant yn dal i ennill profiad, ac arian ychwanegol.

Mae'r raglen AberYmlaen yn cyfuno interniaethau cyflogedig amser llawn mewn adran academaidd neu broffesiynol ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yn cynnwys gweithdai datblygu proffesiynol a chyfarwyddyd a chefnogaeth fesul un yng nghyswllt gyrfa.

Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith

Trwy Gynllun Blwyddyn mewn Gwaith (BMG) y Brifysgol gall myfyrwyr, gyda chefnogaeth eu hadrannau, gymryd blwyddyn wirfoddol allan rhwng ail a thrydedd flwyddyn y cwrs mewn gwaith cyflogedig gyda chwmni yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae cymryd rhan yn y cynllun yn profiad adeiladol a gwerth chweil yn bersonol ac yn broffesiynol.

Am fwy o wybodaeth ar unrhyw un o'r opsiynau yma a'r ystod ehangach o waith rhan-amser ac yn ystod y gwyliau tu allan i'r Brifysgol yn lleol, genedlaethol ac yn ryngwladol, gall eich mab/merch alw heibio'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ar unrhyw adeg. Gallwch hefyd edrych ar ein gwefan:

www.aber.ac.uk/cy/careers



Llety










Yn Aberystwyth, rydym yn ymfalchïo yn y gymuned fyrlymus y mae'r myfyrwyr yn rhan ohoni yn ein neuaddau preswyl. Trwy ddewis llety'r Brifysgol, cewch groeso cynnes gan y Tîm Bywyd Campws ac fe ymunwch â chymuned gefnogol, hwyliog, byrlymus, ac ehangach o bobl o'r un anian â chi.

Mae ein llety o fewn cyrraedd yn hawdd i'r campws felly ni fydd gennych gostau teithio i gyrraedd eich darlithoedd. Mae dewis da o fathau o lety i'w cynnig, gan gynnwys llety arlwyyo, lle darperir prydau bwyd, a llety hunan-arlwyyo, ac mae'r prisiau'n amrywio rhwng tua £85-126 yr wythnos. Beth bynnag yw'ch gofynion, fe geisiwn ddarparu'r dewis mwyaf addas ar eich cyfer.

Mae pob llety yn gymuned ag iddi ei nodweddion penodol ei hun, ac yn cynnig amgylchedd diogel lle gallwch gymdeithasu, astudio ac ymlacio. Pan fyddwch yn byw yn ein llety does dim angen pryderu am gostau cyfnewidiol gan fod y ffioedd neuadd yn cynnwys taliadau trydan ac yn y blaen, y rhyngwyd (yn ogystal â Wi-Fi) a lefel uchel o yswiriant eiddo personol.

Fferm Penglais



- | | | | |
|---|---------------------|---|-------------------------------|
|  | Bwyty/Llety Preswyl |  | Llety Cymraeg penodedig |
|  | Caffi |  | Mannau Cymdeithasu ac Astudio |
|  | Cawod en-suite |  | Parcio |
|  | Golchdy |  | Canolfannau Dysgu |
|  | Wi-Fi | | |

Cipolwg ar ein neuaddau...

Penbryn



- ystafelloedd sengl, mewn fflatiau i 12-25 myfyrwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- bwyty arobyn TaMed Da

Pantycelyn-Penbryn



- llety penodedig i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith
- ystafelloedd sengl, mewn fflatiau i 12-25 o fyfyrwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- Bwyty arobyn TaMed Da

Fferm Penglais



- ystafelloedd en-suite sengl, (gyda gwely dwbl), mewn fflatiau i 6-8 myfyrwr sy'n rhannu cegin/ ardal fyw
- stiwdios sengl hunan-gynhwysol
- fflatiau penodedig i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith
- siop a chaffi ar y safle, ynghyd â mannau cymdeithasu ac astudio
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais, 10 munud Gampws Llanbadarn

Mae teithiau 360° o'r neuaddau ar gael arlein:

www.aber.ac.uk/cy/accommodation/accommodation-tour

Cipolwg ar ein neuaddau

parhad...

Pentre Jane Morgan (pentre'r myfyrwr)   



- ystafelloedd sengl, mewn tai i 5 neu 6 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@PJM
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais, 10 munud Gampws Llanbadarn

Rosser   



- ystafelloedd sengl, en-suite, mewn fflatiau i hyd at 8 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@Rosser
- ar Gampws Penglais, 10 munud ar droed o Gampws Llanbadarn

Cwrt Mawr  



- ystafelloedd sengl, mewn fflatiau i 6-10 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@Rosser
- ar Gampws Penglais, 10 munud ar droed o Gampws Llanbadarn



Cerdyn Aber

Caiff myfyrwr sydd mewn llety arlwy, gredyd wedi ei roi'n awtomatig ar eu Cerdyn Aber fydd yn ddigon i gael o leiaf un pryd o fwyd y dydd. Mae'r lwfans bywd hwn yn rhan o'r ffi llety ac fe gaiff ei roi ar Gerdyn Aber eich mab/merch bob tymor, gan roi hyblygrwydd iddynt ynghylch pryd a ble i fwyta. Gellir cael y pryd bywd yn TaMed Da neu yn unrhyw un o fwytai eraill y Brifysgol.

Pr'un ai bod eich mab/merch mewn llety wedi arlwyo neu beidio, gallwch roi arian ar Gerdyn Aber eich mab/merch ar-lein. Byddant yn gallu defnyddio'r arian yma un unrhyw un o fwytai'r Bifysgol (heblaw am ar ddiod feddwol), yn ogystal ag yn y Ganolfan Chwaraeon.

Gwneud cais am lety

Os yw eich mab/merch yn dal Aberystwyth fel dewis prifysgol cadarn neu wrth gefn, o 1 Ebrill ymlaen yn y flwyddyn mynediad, bydd y Swyddfa Llety yn anfon llythyr o wahoddiad i'w cyfeiriad cartref gyda gwybodaeth am sut i gael mynediad i'n ffurflen gais ar-lein a'i llenwi.

Llety yn y sector breifat

Er bod lle yn llety'r Brifysgol i nifer fawr o fyfyrwr ail a thrydedd flwyddyn, mae rhai'n dewis symud i'r sector breifat, ac mae gan Aberystwyth ddigon o lety o'r fath i'w gynnig. Mae'r Swyddfa Llety yn cynnig gwasanaeth cynghori sector breifat, sy'n cynnwys cynnal cronfa ddata o lety sector breifat, ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych, yn ogystal â gwirio cytundebau tenantiaeth.

Cipolwg ar ein neuaddau

parhad...

Trefloyne  



- ystafelloedd sengl, mewn fflatiau i 7 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@Rosser
- ar Gampws Penglais, 10 munud ar droed o Gampws Llanbadarn

Neuaddau Glan-môr  



- ystafelloedd sengl (rhai'n en-suite), mewn fflatiau i 2-10 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o'r canolfannau dysgu ar Gampws Penglais
- 15 munud ar droed o Gampws Penglais

Swyddfa Llety

Y Sgubor

Fferm Penglais

Prifysgol Aberystwyth

Aberystwyth, SY23 3FH

Ffôn: 01970 622984

Ebost: llety@aber.ac.uk

Gwefan: www.aber.ac.uk/cy/accommodation

Facebook: Aberystwyth University
Accommodation Office

Twitter: @PrifAber_IR

Sut i baratoi eich mab/merch

Dyma rai pethau gallwch chi wneud i helpu'ch mab/merch i baratoi am ei (h)antur nesaf...

ar gyfer prifysgol

Cyn iddynt fynd...

Ydyn nhw wedi cwblhau a dychwelyd eu cais am arian i'r corff ariannol addas (e.e. Cyllid Myfyrwyr Cymru)? Os na fydd y ffurflen wedi ei lenwi'n gywir ac mewn pryd gall eich mab/merch goll'i'r cyfle am rai o'r bwrsariaethau sy'n seiliedig ar brawf moddion sydd ar gael, neu bod eu benthyciad ddim yn dod drwyddo mewn pryd.

Ydy'ch mab/merch yn gyfarwydd â defnyddio peiriant golchi? All eich mab/merch goginio rhai prydau?

Oes gan eich mab/merch gyfrif banc? Cofiwch ystyried cynnigion gwahanol fanciau a ceisiwch ddod o hyd i un bydd yn cynnig lleihau'r gorddrafft yn raddol ar ôl iddynt raddio. Mae gwefan Martin Lewis yn cynnig cyngor gwych ar hyn (www.moneysavingexpert.com/family/).

Gwnewch yn siwr bod yr adnoddau arlwyio yn addas ar gyfer eich mab/merch. Gall neuadd hunan-arlwyio fod yn dipyn her i fyfyrwr nad yw wedi berwi wy erioed!

Oes gan eich mab/merch unrhyw anghenion dysgu ychwanegol? Os oes, ydyn nhw wedi cysylltu â'n Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr? Os na, cysylltwch â nhw drwy ebost (disability@aber.ac.uk) neu drwy ffonio (01970 621761).

Gwnewch yn siwr bod eich mab/merch wedi actifadu eu cyfrif Prifysgol Aberystwyth, a'u bod wedi ymgeisio am eu CerdynAber (gweler tud 16) ar-lein.

Annogwch eich mab/merch i dynnu lot o luniau pasbort cyn iddynt gyrraedd, gan byddant angen nifer o'r rhein yn ystod yr wythnos gyntaf.

Cymrwch olwg ar ein Llyfryn i Drigolion, a ddarperir gan y swyddfa lety (mae hefyd ar gael ar-lein) gan fod gwybodaeth defnyddiol iawn ynddo a rhai syniadau da am fyw mewn neuadd.



Cyrraedd Aber...

Atgoffwch eich mab/merch o'r dogfennau sydd eu hangen wrth ddod i'r brifysgol (yn cynnwys tystysgrif geni, tystysgrifau gwreiddiol arholiadau - weithiau gofynnir am rhain). Dewch â digon o ffotograffau pasbort hefyd!

Rhowch gyngor iddynt ar y pethau personol y bydd eu hangen arny'n nhw a gwnewch yn siwr eu bod wedi hyswrio eu heiddo. Mae yswiriant integrol yn gorchuddio myfyrwyr sy'n byw mewn. Ceir restr ddefnyddiol ar dudalennau llety ein gwefan am yr hyn mae angen iddynt ddod gyda hwy: www.aber.ac.uk/cy/accommodation/moving-in/checklist

Rhaid i fyfyrwyr gael Trwydded Teledu i wlyio rhaglenni ar y teledu neu ar rai sianeli ar-lein.

Bydd angen iddynt ddod a'u Ffurflen Rhyddhau Allweddï gyda hwy. Byddant yn cael un o'r rhain wrth iddynt gwblhau eu Rhaglen Groeso arlein.

Annogwch nhw i fynd â rhai pethau personol gyda hwy, er enghraifft lluniau, manion, posteri, dillad gwely penodol, neu glustogau ychwanegol. Bydd yn eu helpu i deimlo'n fwy cyfforddus yn eu ystafell wely. Darperir pinfwrdd, ond efallai bydd e werth dod a 'whitetack' hefyd.

Gallwch nawr archebu dillad gwely a rhai pethau cegin, a threfnu iddynt gael eu cludo'n syth i'ch llety drwy www.Click2Campus.co.uk; a mae rhai siopau'n y dref hefyd yn cynnig gwasnaeth Clicio a Chasglu, gan gynnwys Matalan, M&Co, Argos, M&S, Accessorize, Monsoon a Next.

Atgoffwch eich mab/merch y gallant droi at y Tîm A (myfyrwyr presennol mewn crysau t coch) ar unrhyw adeg yn ystod Wythnos y Glas, am gymorth a chyngor am unrhyw broblem a dangos iddynt ble mae pethau os byddant yn mynd ar goll.

Ceisiwch sicrhau bod amser gyda chi ar diwrnod symud i fewn os ydynt am fynd i siopa gyda chi, falle bo nhw'n edrych ymlaen i wneud hyn fel modd o nodi'r achlysur!

Cyn i chi adael, anogwch nhw i fod yn ofalus ond i fwynhau eu hun - dylent geisio ymuno â gymaint o gymdeithasau gallynt, a gwneud y mwyaf o'u hamser yn y brifysgol!

Aberystwyth... cynefin newydd

Mae'n hollol naturiol i fyfyrwr a'u rhieni fod yn bryderus ynglyn a'r wythnosau cyntaf yn y brifysgol. Hwn yw'r cyfnod anoddaf i bawb.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod ein myfyrwr yn setlo cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau'r tymor. Rydym yn trefnu rhaglen sy'n cyflwyniad trwyadl i'r holl adnoddau sydd ar gael i'r myfyrwr.

Gall myfyrwr droi i sawl cyfeiriad i gael cymorth a chyngor yn ystod y cyfnod cyntaf, er enghraifft eu tiwtoriaid personol yn yr adrannau academaidd, a Gwasanaethau y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwr. Hefyd gellir dod o hyd i'r Tim A o gwmpas y campws yn ystod wythnos y Glas, sef rhai o'n myfyrwr presennol, sy'n gwisgo crysau t coch. Maent yno i ateb unrhyw gwestiynau fydd gan eich mab/ merch, gan gynnwys sut i gwblhau ffurflenni, sut i gael cerdyn llyfrgell, cyfeiriadau i ystafelloedd ac adeiladau, ac unrhywbeth arall y byddant angen ei wybod.

Lleolir y Ganolfan Croesawu Myfyrwr ar Gampws Penglais, ac mae ar agor drwy gydol y flwyddyn. Yn y Ganolfan gall myfyrwr ddod o hyd i'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwr, a gyferbyn iddo yn Adeilad Cledwyn ceir y Swyddfeydd Derbyn.

Rydym yn eich gwahodd chi i'r sgwrs Groeso'r Is-Ganghellor, cynhelir yn ystod yr Wythnos Groeso, sef y cyfnod pan fydd teuluoedd yn hebrwng myfyrwr i'r brifysgol.



91% boddhad myfyrwr

Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwr 2017

Dilynwch ni ar Facebook...

Gallwch annog eich mab/ merch i ymuno a'n tudalen Facebook i fyfyrwr newydd Aberystwyth, drwy chwilio am 'Prifysgol Aberystwyth Darpar Fyfyrwr'. Rydym hefyd ar twitter /AberUni_IR. Mae'r tudalennau hyn yn rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau ac i sgwrsio a myfyrwr newydd eraill. Hefyd os oes gennych chi gwestiynau eich hun fel rhiant, mae croeso i chi ymuno â:

www.facebook.com/groups/parentsofaberunistudents

Fe gewch yma hefyd atebion i'ch cwestiynau.



youtube.com/PrifysgolAberystwyth

Am fwy o ddolenni cyswllt ewch i:
www.aber.ac.uk/cy/social-media

Gobeithio y bydd yn gysur i chi wybod ein bod yn ymwybodol o'r pryderon naturiol sydd gennych, ac y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu eich mab neu'ch merch i ymgartrefu yma. Ar ôl dod i arfer â'r lle, gallwn ddweud yn onest bod y mwyafrif o'n myfyrwr yn magu ymlyniad cryf a'r dref a'r Brifysgol. Yn wir, mae rhai ohonynt yn aros yn yr ardal ac o fewn y brifysgol am flynyddoedd!

Does dim raid i chi gredu ni! Dyma ddywedodd rhai o'n myfyrwr ni am eu wythnos gyntaf yn Aberystwyth...

"Roedd gadael cartref am y tro cyntaf yn brofiad beichus. Ond mae Aberystwyth yn le mor gyfeillgar bu i mi deimlo'n gartrefol bron yn syth; mae pawb yn y Brifysgol a'r dref yn groesawgar a chyfeillgar, mae iddi wir ymdeimlad o gymuned. Fel nifer o bobl dwi 'di mwynhau fy hun gymaint yma, dwi' wedi dychwelyd i astudio gradd Meistr ar ôl graddio!"

Rhodri Lewis, Llanelli

"Roeddwn i'n nerfus iawn am fynd mor bell o gartref, ond dwi'n hynod o falch 'mod i wedi aros yma. Dwi 'di cael amser gwych ac wedi gwneud ffrindiau oes. O ganlyniad i'r digwyddiadau'n ystod yr wythnos groeso cewch nifer o gyfleoedd i gwrdd â myfyrwr ar eich cwrs, yn ogystal â darlithwyr. Mae pawb yn gyfeillgar ac maent wirioneddol yn gwybod sut rydych chi'n teimlo. Mae yna gymaint o wahanol gymdeithasau a chwaraeon i'w profi hefyd, mae'n hawdd iawn i wneud ffrindiau gyda phobl â'r un diddordebau a chi, a chael cyfle i fod yn rhan o ryweth hollol gwahanol!"

Savannah Robinson, Cymbria

Yn cefnogi eich *mab/merch*

Mae ein cymuned glos yn bluen yn ein het. Mae perthynas unigryw rhwng y myfyrwyr ac mae ein staff, a'r gymuned o fewn y Brifysgol, yn wych ac yn aml iawn byddant yn adnabod eich mab/merch wrth ei enw cyntaf.

Cefnogaeth

Os bydd gan eich mab/merch unrhyw broblemau hoffon drafod gyda'n staff, dylent yn y lle cyntaf gysylltu â'u tiwtor personol, neu'r pennaeth blwyddyn yn yr adran academiaidd. Os byddant angen cyngor mwy penodol neu arbenigol gallynt gysylltu â'r Ganolfan Croesawu Myfyrwyr neu Wasanaeth Cyngori Undeb y Myfyrwyr.

Iechyd a Lles

Mae angen i bob myfyriwr gofrestru mewn meddygfa leol. Fel 'Tref Brifysgol' mae gan y meddygfeydd lleol brofiad helaeth o ymdrin ag anghenion myfyrwyr. O achos ei maint a'i lleoliad mae gan Aberystwyth Ysbyty Gyffredinol sydd drws nesaf i gampws Penglais.

Mae Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr y Brifysgol (a leolir yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr) yn cynnwys ein darpariaeth iechyd meddwl a chynghori. Mae'r Gwasanaeth yn ychwanegol i'r ddarpariaeth statudol.

Cymorth Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian i Fyfrwyr yn darparu gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth a chyfeirio ar ystod eang o faterion. Mae ein gwasanaeth yn gyfrinachol, ddim yn feirniadol, ac yn rhad ac am ddim. Mae gennym wasanaeth galw heibio neu gallwch wneud apwyntiad gyda Chynghorydd drwy'r Ganolfan Croesawu Myfyrwyr.

Mae'r cynghorwyr myfyrwyr wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Arian Myfyrwyr (NASMA) ac maent yn gallu cynnig cyngor proffesiynol ar reoli arian neu unrhyw faterion yn ymwneud â chyllid myfyrwyr. Gallant hefyd roi cyngor ac arweiniad ar unrhyw ymholiadau yn ymwneud â llety, cynnydd academiaidd, gweithdrefnau'r Brifysgol neu gymhwysedd am gronfeydd caledi.

Myfyrwyr Anabl/rheini ag angenion dysgu penodol neu gyflyrau iechyd gronig

Mae croeso i fyfyrwyr anabl gysylltu â'r Cynghorydd Hygyrchedd (sydd wedi'i leoli yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr) i drefnu cefnogaeth gan staff arbenigol a chael cyngor am yr ystod o gyfarpar arbenigol neu feddalwedd sydd ar gael. Gall y Gwasanaeth Hygyrchedd hefyd roi cyngor am y Lwfans Myfyrwyr Anabl.



Credoau crefyddol

Mae cyfleusterau a threfniadau ar gael yn Aberystwyth ar gyfer y prif grefyddau. Mae gan y Brifysgol dwy ofod aml-grefydd benodol, ac mae nifer o wahanol grwpiau crefyddol i'w cael ymhlith cymdeithasau myfyrwyr niferus Undeb y Myfyrwyr.

Diogelwch ac yswiriant

Er bod Aberystwyth mewn ardal lle mae troseddau ar eu lefel isaf yng ngorllewin Ewrop ac mae cynrychiolaeth o'r heddlu yn bresennol ar y campws, rydym yn annog ein holl fyfyrwyr yn gryf i yswirio eu heiddo personol. Bydd yswiriant canolog y Brifysgol yn darparu peth gofal dros eitemau personol eich mab/merch tra bo nhw'n eu ystafell, ond rydym yn argymhell eich bod yn ystyried ehangu'r lefel yma o yswiriant, neu'n chwilio am yswiriant ychwanegol.

Awgrymwn bod myfyrwyr yn paratoi rhestr o'u holl eiddo ac amcanu gwerth prynu'r cwbl o'r newydd - mae hyn gan amlaf yn peri syndod. Gwnewch yn siwr bod yr yswiriant yn ddigonol i'r cyfanswm hwn. Bydd y rhan fwyaf o bolisiau cartref naill ai

yn rhoi estyniad awtomatig neu'n darparu ffordd i ymestyn yr yswiriant i gynnwys eiddo eich mab neu ferch tra bydd oddi cartref.

Efallai y dylech hefyd ystyried yswirio yn erbyn damweiniau personol, yn enwedig os yw'ch mab neu ferch yn gwneud llawer o chwaraeon. Bydd gweithgaredd anturus, tebyg i ddringo, syrffio neu farcuta, yn cael eu heithrio o bolisiau damwain bersonol a dylid cael polisiau penodol ar eu cyfer.

Amgylchiadau arbennig

Sylweddolwn bod myfyrwyr o gefndir o bob math yn dod yma, ac y gall amgylchiadau teulu newid yn ystod y flwyddyn. Rydym yn awyddus iawn bod yr holl ffactorau a allai effeithio ar allu myfyriwr i astudio a pherfformio hyd eithaf ei allu/gallu yn cael eu hystyried cyn penderfynu ar y marciau terfynol. Mae gennych chi fel rhieni ran bwysig wrth annog eich mab neu ferch i ddweud wrth eu adran am amgylchiadau arbennig cyn i Fyrddau Arholi gyfarfod, fel y gellir rhoi'r ystyriaeth decaf posibl i'r amgylchiadau.



Cyflogadwyedd

Mae'r Gwasanaeth Cyngori ar Yrfaoedd yn anelu i ddarparu cefnogaeth i alluogi myfyrwyr a graddedigion i gyflawni eu uchelgais ac i gyrraedd eu potensial. Bydd y Gwasanaethau Gyrfaoedd yn rhoi cymorth i'ch mab neu'ch merch i lunio llwybr gyrfaoel ac i ddeall y camau hanfodol sy angen er mwyn cyrraedd y nod honno. Fe drefnwn ni i ystod eang o gyflogwyr, cyn-fyfyrwyr a sefydliadau ddod i'r campws i gynnig eu gwybodaeth arbenigol gan ddarparu i'n myfyrwyr weithdai, cyflwyniadau a datblygiadau yn y cwricwlwm. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu cymaint ag sy'n bosib o brofiadau cysylltiedig â gwaith ar gyfer ein myfyrwyr ac ar eu cefnogi i achub ar bob cyfle sy ar gael. Am wybodaeth bellach, gweler:

www.aber.ac.uk/careers

Cyfrinachedd

O ganlyniad i'r Ddeddf Diogelu Data, ni fydd staff y Brifysgol yn gallu darparu gwybodaeth am gynnydd neu gais am le fyfyrwyr, i berson arall, heb ganiatâd uniongyrchol y myfyriwr yna. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth i rieni a chefnogwyr.



Mwynhau *bywyd fel myfyriwr*

Nid oes yna dref prifysgol ym Mhrydain sy'n gallu cynnig yr un ysblander o ran golygfa. Oherwydd ei lleoliad, mae Aberystwyth yn mwynhau bywyd myfyriwr a chymdeithasol sydd â'i myfyrwyr wrth wraidd popeth, ac mae hyn yn aml yn wir am bywyd cymdeithasol y dref hefyd.

Mae adnoddau'r campws yn wych o ran diwylliant a chwaraeon, ac mae Aberystwyth yn ganolfan ddi-guro i'r rhai sy'n mwynhau yfed a bwyta. Anelir y cwbl yn amlwg ac yn ddi-edifar at chwaeth a chyllid myfyrwyr. Mae'r cysylltiad rhwng y Brifysgol a'r dref yn un hapus; mae'r ddwy gymdeithas yn dibynnu y nail ar y llall.

Un o brif fanteision Aberystwyth yw fod popeth o fewn cyrraedd yn rhwydd ar droed. Mae'r darlithoedd, yr adnoddau chwaraeon, y llyfrgelloedd, y siopau a'r archfarchnadoedd, y sinema a'r gweithgareddau celfyddydol i gyd o fewn pellter cerdded, ac nid oes rhaid i fyfyrwyr wastraffu amser nac arian ar deithio. Ar ôl cyrraedd yma gall ef neu hi ganolbwyntio ar yr agweddau hynny sy'n bwysig ym mywyd myfyrwyr – gwaith, chwarae a gorffwys.



Chwaraeon a Cymdeithasau

Mae Undeb y Myfyrwyr yn gartref i dros 100 o gymdeithasau myfyrwyr o bob math, sy'n golygu bydd gan eich mab/merch y cyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon, cymdeithasol a diwylliannol. Gall rhain amrywio o gymryd rhan mewn gynhyrchiad theatrig, bod yn rhan o gôr neu berfformiad gerddorol, i chwaraeon o bob math.

5 clwb chwaraeon mwyaf poblogaidd Aber

1. Y Geltaidd – cymdeithas chwaraeon i fyfyrwyr Cymraeg
2. Chyngrhair DIGS – cystadleuaeth chwaraeon i bob lefel o allu
3. Ffrisbi Eithafol – gemau ffrisbi ar gyfer pob lefel o allu
4. Clwb Harriers – athletau i bawb
5. Tymoedd Rygbi Undeb a'r Gynghrair

5 gymdeithas mwyaf poblogaidd Aber

1. UMCA – cymdeithas myfyrwyr Cymraeg Aber
2. Nomadic Players – cymdeithas theatr boblogaidd
3. Cyfryngau Myfyrwyr Aber – mae'n cyhoeddi papur newydd, gwasanaeth radio a theledu, a gwefan
4. Tickled Pink – yn codi arian ac ymwybyddiaeth o Gofal Cancr y Fron a CoppaFeel
5. Cymdeithas Cwrw

Llefydd gorau i ymweld â hwy

Mae Aberystwyth a'r cyffiniau'n boblogaidd iawn ymysg twristiaid, sy'n golygu bydd digon o lefydd i chi ymweld, pan byddwch chi'n galw heibio i weld eich mab/merch!

Y Graig Las – Unwaith byddwch wedi cyrraedd y copa byddwch yn gallu gweld rhai o'r golygfeydd gorau o Aberystwyth.

Royal Pier – Cartref nifer o lefydd gan gynnwys Yr Arcêd a'r clwb nos poblogaidd Pier Pressure. Hon oedd y pier cyntaf i agor yng Nghymru n'ôl ym 1865, ac yn wreiddiol roedd yn 242 metr.

Castell Aberystwyth – Adeiladwyd yn dilyn y rhyfel cyntaf yng Nghymru yn 13 ganrif. Mae'r adfeilion ar agor i'r cyhoedd drwy'r flwyddyn

Traethau'r De a'r Gogledd – Gall unrhyw un wario'r dydd yno'n cael picnic neu chwarae gemau. Ar draeth y de gallwch hefyd gael barbiciu gyda ffrindiau, neu fynd ar ganw neu nofio'n y môr hyd yn oed.

Gwyllo'r Dolffiniaid, Cei Newydd – Mae cychod yn mynd allan ar y dŵr am y dydd ble (os byddwch chi'n lwcus) gallwch weld nhw'n nofio a chwarae o gwmpas y cwch.

Canolfan Celfyddydau Aberystwyth – Un o'r Canolfanau Gelfyddydau amlycaf Cymru mae'n cynnwys theatr sy'n dal 320, neuadd gyngerdd sy'n dal 900, a sinema 120 sedd. Mae yno hefyd stiwdio, galeriau, dwy gaffi, bar, siop grefftiau a siop lyfrau swyddogol y Brifysgol.

Dyddiadau'r tymhorau

Mae'r flwyddyn academaidd wedi ei rhannu mewn i ddau semester sydd wedi eu ymledu dros dri tymor. Sefir arholiadau yn y rhan fwyaf o fodiwlau ar ddiwedd y tymor y canlynir y modiwl. Cyn pob cyfnod o arholiadau mae adrannau'n trefnu wythnos ddarlenn sy'n galluogi myfyrwyr i ddal i fyny gyda'u hastudiaethau a pharatoi ar gyfer yr arholiadau.

SEMESTER 1				SEMESTER 2									
SEPTEMBER	OCTOBER	NOVEMBER	DECEMBER	VACATION	JANUARY	EXAMINATIONS	FEBRUARY	MARCH	VACATION	APRIL	MAY	EXAMINATIONS	JUNE
Term 1 (Michaelmas Term)					Term 2 (Lent Term)					Term 3 (Easter Term)			

Dyddiadau 2018-2019

Tymor yr Hydref (1)

Llun 24 Medi 2018 - Sadwrn 15 Rhagfyr 2018

Wythnos Croeso/Cofrestru

Llun 24 Medi 2018 - Gwener 28 Medi 2018

Dysgu Semester 1

Llun 01 Hydref 2018 - Sadwrn 15 Rhagfyr 2018

Gwyliau'r Nadolig

Llun 17 Rhagfyr 2018 - Sadwrn 05 Ionawr 2019

Tymor y Gwanwyn (2)

Llun 07 Ionawr 2019 - Sadwrn 06 Ebrill 2019

Arholiadau Semester 1

Mercher 09 Ionawr 2019 - Mawrth 22 Ionawr 2019

Adborth/Marcio/Paratoi ar gyfer Semester 2

Mercher 23 Ionawr 2019 - Sadwrn 26 Ionawr 2019

Dysgu Semester 2

Llun 28 Ionawr 2019 - Sadwrn 06 Ebrill 2019

Gwyliau'r Pasg

Llun 08 Ebrill 2019 - Sadwrn 27 Ebrill 2019

Tymor yr Haf (3)

Llun 29 Ebrill 2019 - Sadwrn 01 Mehefin 2019

Dysgu Semester 2

Llun 29 Ebrill 2019 - Sadwrn 04 Mai 2019

Wythnos Darllen/Adolygu

Llun 06 Mai 2019 - Sadwrn 11 Mai 2019

Arholiadau Semester 2

Llun 13 Mai 2019 - Sadwrn 01 Mehefin 2019

Addysg gydol oes

Mae gan y Brifysgol gyrsiau o bob math ar gyfer pobl o bob oed. Mae nifer o'n myfyrwyr yn fyfyrwyr hŷn (dros 21) sydd wedi penderfynu gwneud cwrs addysg uwch am eu bod yn credu y bydd ein cyrsiau o gymorth iddyn nhw gyda'u gyrfa neu am fod ganddyn nhw uchelgais academaidd bersonol. Mae pob cyfle a gynigir i'ch mab neu'ch merch hefyd ar gael i chi, ac mae croeso mawr i chi holi am fanylion.

Cysylltwch â ni

Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr:

Canolfan Croesawu Myfyrwyr
Campws Penglais
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth, SY23 3FB
Ffôn: 01970 621761
E-bost: student-support@aber.ac.uk

Swyddfa Ffoedd Myfyrwyr:

Canolfan Croesawu Myfyrwyr
Campws Penglais
Aberystwyth, SY23 3FB
Ffôn: 01970 628434
E-bost: ffoedd@aber.ac.uk

Swyddfa Derbyn Israddedigion:

Adeilad Cledwyn
Campws Penglais
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth, SY23 3DD
Ffôn: 01970 622021
E-bost: derbyn-israddedig@aber.ac.uk

Swyddfa Llety:

Y Sgubor
Fferm Penglais
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth, SY23 3FH
Ffôn: 01970 622984
Llinell gymorth 24awr: 01970 622900
E-bost: llety@aber.ac.uk

Trefn gwyno

Gobeithio y gwelwch ein bod yn sefydliad effeithiol a chyfeillgar. Ond, os bydd gennych gwynion am unrhyw agwedd ar y drefn denu a derbyn myfyrwyr, cysylltwch â'r Dirprwy Is-Ganghellor, Swyddfa'r Is-Ganghellor, y Ganolfan Ddelweddu, Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BF. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor yn gwneud pob ymdrech i ddelio â chwynion o fewn 5 diwrnod gwaith. Os nad yw hyn yn bosibl, fe gysylltwch â chi i egluro beth yw'r trafferthion, a phryd y byddwn yn gallu rhoi ateb llawn i chi.

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir ar adeg mynd i'r wasg (Awst 2017) ac fe'i bwriedir i fod yn ganllaw, ond mae'n bosibl bydd peth ohono'n newid. Ewch arlein am y wybodaeth ddiweddaraf, os gwelwch yn dda.



www.aber.ac.uk

- Dewis hyblyg i fyfyrwyr
- Cefnogaeth gwych ar gyfer dysgu myfyrwyr, gyda dros 140 mlynedd o ragoriaeth mewn dysgu ac ymchwil
- Gwarant o lety yn y flwyddyn gyntaf
- Pecyn gwerthfawr o fwrsariaethau, ysgoloriaethau a gwobrau
- Mynediad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru
- Y gorau yng Nghymru a 5ed prifysgol orau yn y DU am foddhad myfyrwyr, Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr 2017

